# Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2015-2016

Mae adroddiad blynyddol y cynghorydd hwn yn amlinellu ei weithgareddau dros y flwyddyn a ddaeth i ben ar **18 Mai 2016.** Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid oes ganddo ddiben arall. Barn y cynghorydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o angenrheidrwydd yn adlewyrchu barn Dinas a Sir Abertawe.

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cynghorydd:** | Ceinwen Thomas | Adran Etholiadol: | Mynydd-bach |

## Adran 1: Gweithgareddau yn yr etholaeth

Cynhaliwyd cymorthfeydd bob tair wythnos yng Nghanolfan Gymunedol Treboeth a Chanolfan Gymunedol y Clâs.

Cynhaliwyd ymweliadau safle i edrych ar feysydd i'w gwella mewn perthynas â chronfa ddyranedig o arian Dinas a Sir Abertawe y gallai cynghorwyr ei defnyddio ar gyfer gwelliannau amgylcheddol yn y ward.

Roeddwn (ac rwy'n dal i fod) yn aelod o Fwrdd Llywodraethu Ysgol Gynradd Gwyrosydd.

Rwy'n aelod o Bwyllgor Rheoli Canolfannau Cymunedol Treboeth a'r Clâs.

## Adran 2: Presenoldeb y cynghorydd yng nghyfarfodydd penodol cyrff y cyngor

Un elfen bwysig yn unig o ddyletswyddau cynghorydd yw mynychu cyfarfodydd cyrff y cyngor. Mae cynghorwyr hefyd yn gweithredu trwy gynnal cymorthfeydd, mynd i gyfarfodydd ac ymateb i ymholiadau cyffredinol o'r adran etholiadol.

Isod dangosir % presenoldeb seiliedig ar aelodaeth pwyllgor:

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Pwyllgor Archwilio | 0 | / | 2 | 0 | % |
| Pwyllgor Cynghori'r Cabinet ar Fusnes a Gweinyddu | 1 | / | 4 | 25 | % |
| Y Cyngor | 12 | / | 18 | 67 | % |
| Pwyllgor Cynghori'r Cabinet - Datblygu | 5 | / | 10 | 50 | % |
| Pwyllgor Cynghori'r Cabinet ar yr Economi a Buddsoddi | 1 | / | 2 | 50 | % |
| Pwyllgor Cynghori'r Cabinet ar Addysg a Phobl Ifanc | 2 | / | 8 | 25 | % |
| Panel Llywodraethwyr yr ALI | 3 | / | 9 | 33 | % |
| Pwyllgor Archifau Gorllewin Morgannwg | 1 | / | 4 | 25 | % |
| **CYFFREDINOL** | **25** | **/** | **57** | **44** | **%** |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfarfodydd Craffu** | | | | | |
| Panel Perfformiad Craffu'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd | 3 | / | 12 | 25 | % |
| Panel Craffu Trawsnewid y Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion | 4 | / | 12 | 33 | % |
| **CYFFREDINOL** | **7** | **/** | **24** | **29** | **%** |

## Adran 3: Rôl a chyfrifoldebau'r cynghorydd

Cyflwynais gyflwyniadau Powerpoint amrywiol i grwpiau yn y ward.
Euthum i ddigwyddiadau codi arian yn y ward.

**Adran 4: Mentrau a gweithgareddau arbennig**

Arwyddion annedd (Treboeth/y Clâs). Blodau gwyllt.

Llinellau melyn dwbl (Treboeth), bolardiau y tu allan i ysgolion.

Cysylltais â'r ysgolion ynglŷn â grantiau Cymunedau'n Gyntaf i helpu mewn meysydd penodol.

Gyda'm lwfans amgylcheddol cynghorydd, trefnais y canlynol:

Pyst pren wrth gyffyrdd Heol Bryngelli/Heol Llangyfelach.

Heol Fach - Gorchymyn Rheoleiddio Traffig.

Teras Parkhill - bolardiau.

Pen dwyreiniol Heol Ddu - pyst pren.

**Adran 5: Dysgu a datblygu**

Oherwydd salwch difrifol yn y teulu, nid wyf wedi gallu cymryd rhan mewn sesiynau hyfforddi.

**Adran 6: Gweithgareddau a materion eraill**

Cyn cael f'ethol ym 1990, fy nealltwriaeth i oedd y byddai'r gwaith yn cynnwys gweithio saith niwrnod yr wythnos (24/7).

Rwyf wedi bod yn brysur ar y ffôn a thros e-bost, wrth fynd i'r afael ag ymholiadau fy etholwyr. Mae galwadau bob amser yn cael eu dychwelyd os gadawyd negeseuon i mi. Rwy'n sicrhau bod materion heb eu datrys yn cael eu cwrso'n rheolaidd.

**Adran 7: Taliadau cydnabyddiaeth i gynghorwyr**

Cyflog Sylfaenol: £13,300

Gellir gweld ffurflenni hawlio costau teithio a chynhaliaeth cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13266&path=0&LLL=0

Gellir gweld treuliau a lwfansau blynyddol cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13284&path=0&LLL=0

Nid wy'n hawlio treuliau.

| | |
|---|---|
| **Dyddiad**: | 11.05.2016 |